

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## 2024-2028

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# 1. Cyflwyniad

**Prifysgol Wrecsam (PW) yn un o'r prifysgolion ieuengaf yn y DU, ond mae gennym hanes hir o ddarparu addysg i'n cymuned.**

Ein cenhadaeth yw ysbrydoli a galluogi drwy addysg uwch, ymchwil ac ymgysylltu; gan gydweithio â'n myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid.

Mae ein gweithgarwch yn seiliedig ar ein gwerthoedd craidd::

Hygyrch

Cefnogol

Arloesol

Uchelgeisiol

Mae ein cenhadaeth a'n gwerthoedd yn cael eu mynegi yn y weledigaeth ar gyfer ein pedwar maes strategaeth: addysgu sy'n ysbrydoli, ymchwil sy'n trawsnewid, ymgysylltu sy'n galluogi a strwythur sy'n cynnal.

Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2028 ac yn nodi ein hymrwymiad i gefnogi hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein harferion; sefydlu diwylliant ac amgylchedd sy'n rhydd o wahaniaethu.



Ar hyn o bryd, mae ein Prifysgol yn edrych tuag at ein dyfodol yng nghanol rhaglen o'r enw Campus 2025, sydd â'r nod o ddatblygu a gwella ein campysau, gan sicrhau bod gan ein myfyrwyr y cyfleusterau a'r amgylchedd dysgu gorau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cydraddoldeb wrth wraidd popeth a wnawn ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn yrrwr allweddol yn ein holl bolisïau, prosesau a gweithdrefnau. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys ein hymrwymiad i wneud gwelliannau i Ein pobl, Ein Hamgylchedd a'n Cymuned; gwella'r amgylchedd dysgu a gweithio, darparu campysau diogel a chynhwysol; gweithio tuag at wella ein hamrywiaeth a galluogi ein prifysgol a'n cymuned leol i gyflawni eu potensial.

Mae gan ein pobl hunaniaeth luosog ac mae ganddynt anghenion unigol amrywiol sy'n dod â phrofiadau a safbwyntiau unigryw at ei gilydd gyda hynny'n dod â gwerth a newid cadarnhaol i'n cymuned. Mae croestoriadedd wedi dod yn ystyriaeth gynyddol i ni a bydd yn parhau i fod yn ffocws allweddol dros y blynyddoedd nesaf gan sicrhau ein bod yn gweld ein harferion trwy lens groestoriadol.

Fel un o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, mae dyletswydd arnom i nodi ein hamcanion; mae'r cynllun hwn yn darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er budd ein myfyrwyr, ein staff a'n cymuned. Mae ein cynllun yn dwyn ynghyd ac yn adeiladu ar nifer o gynlluniau cyflawni ar gyfer llinynnau penodol o gydraddoldeb a'r nod yw datblygu dull cyfannol sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig a enwir o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010.



# 2. Datganiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Mae ein Prifysgol wedi ymrwymo i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ei harferion a'i gweithgareddau, gan sefydlu diwylliant ac amgylchedd cynhwysol lle mae staff, myfyrwyr ac ymwelwyr yn teimlo'n hyderus i fod yn nhw eu hunain.**

Rydym yn cydnabod y manteision gwirioneddol o safbwynt addysgol a busnes o gael cymuned amrywiol o staff a myfyrwyr sy'n gwerthfawrogi ei gilydd, gan gydnabod bod y sefydliad yn cael ei wella gan ystod o gefndiroedd, credoau a diwylliannau, yn gweithio i gyflawni ein cenhadaeth.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu a gwaith lle mae hawliau ac urddas ein staff a'n poblogaeth myfyrwyr yn cael eu parchu; amgylchedd sy'n rhydd o wahaniaethu, rhagfarn, bygythiad a phob math o aflonyddu a bwlio. Rydym yn canolbwyntio ar gynhwysiant i sicrhau cyfle cyfartal i'n pobl a dangos ein hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sy'n cael ei adlewyrchu yn ein gwerthoedd:

**Hygyrch - yn yr hyn yr ydym yn ei ddarparu i'n myfyrwyr, ein staff a'n cymuned; bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo gwerth addysg uwch. Mae hyn wedi'i seilio ar ymroddiad i fod yn gynhwysol ac yn deg o ran sut rydym yn darparu ein gwasanaethau.**

- Creu cymuned sy'n croesawu myfyrwyr, staff ac ymwelwyr o bob cefndir, gan eu rhoi wrth wraidd yr hyn a wnawn, eu trin ag urddas a pharch a darparu mynediad cyfartal bob amser

**Cefnogol - o'n dysgwyr a'n staff, yn ogystal â'r rhanbarth, gan helpu pawb i fagu hyder a chyflawni eu potensial.**

- Gweithio'n agos gyda'n cymuned i gefnogi twf a gwella canlyniadau myfyrwyr mewn modd hyblyg ac ymatebol yn dibynnu ar anghenion unigol

**Arloesol - wrth ddarparu a rheoli darpariaeth academaidd a gwasanaethau proffesiynol ac yn ein perthynas â phartneriaid.**

- Gweithio mewn partneriaeth â phawb sy'n dod i gysylltiad â'r Brifysgol, gan dynnu ar eu creadigrwydd i greu cwricwlwm cynhwysol ac amgylchedd dysgu i gefnogi'r holl anghenion yn llawn

**Uchelgeisiol - yn yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni ar gyfer ein myfyrwyr, staff a phartneriaid; gan gydnabod nad oes terfyn ar ddysgu a gwybodaeth.**

- Adeiladu perthnasoedd cyd-fuddiannol â phrifysgolion partner a cholegau addysg bellach i ddiwallu anghenion rhanbarthol er mwyn cefnogi ein twf yn y dyfodol; yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym wedi ymrwymo i alluogi pob unigolyn i elwa o addysg uwch waeth beth yw eu nodweddion personol o ran oedran, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred), rhyw, ailbennu rhywedd (hunaniaeth/mynegiant rhywedd/) a chyfeiriadedd rhywiol.

Er mai Bwrdd y Llywodraethwyr sydd â'r cyfrifoldeb ffurfiol dros gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, mae ein cynllun yn rhoi cyd-gyfrifoldeb ar yr holl staff a myfyrwyr i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein Prifysgol. Mae hyn yn golygu ystyried anghenion unigol pob myfyriwr, aelod o staff ac ymwelydd.



# 3. Deddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

**O dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), mae'n ofynnol i ni roi sylw dyledus i:**

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt;
- Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad ydynt

**Safonau'r Gymraeg**

Er nad yw bod yn siaradwr Cymraeg wedi'i ddiogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym yn cydnabod bod gennym gyfrifoldeb penodol dros yr Iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a rydym wedi ymrwymo i Safonau'r Gymraeg, gan roi ar waith y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Academaidd Cyfrwng Cymraeg i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

**Mae'r ddyletswydd yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:**

- oed
- anabledd
- rhyw
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred)
- cyfeiriadedd rhywiol
- priodas a phartneriaeth sifil (mewn perthynas â'r gofyniad i ddileu gwahaniaethu)

# 4. Ymgynghoriad

**Dulliau Ymgynghori:**

- Holiadur Myfyrwyr
- Holiadur Staff
- Meincnodi Data (cyfrifiad/mewnol/allanol)
- Grwpiau Ffocws Staff
- Grwpiau Ffocws Myfyrwyr
- Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Grŵp Hygyrchedd a Chynhwysiant
- Grŵp Cydraddoldeb Hiliol
- Rhwydwaith Staff LHDTC+

**Ymgynghori**

- **Undeb y Myfyrwyr**
- **Grwpiau Cymunedol Lleol**
- **Staff o bob nodwedd warchodedig**
- **Myfyrwyr o bob nodwedd warchodedig**

**Mae gwybodaeth ychwanegol sydd wedi cefnogi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):**

- Adroddiadau a Diweddariadau ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol "Cymru" 2015
- Adroddiadau a Diweddariadau gan 'Advance HE'
- Adroddiadau a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru
- Adroddiadau/Canllawiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol
- Mynd i'r afael ag aflonyddu hiliol mewn addysg uwch UUK: argymhellion
- Argymhellion UUK: Tackling Racial Harassment in Higher Education 2023
- Strategaeth Llywodraeth Cymru 2022-26 mewn perthynas â Thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a rhywiol
- Cynllun Gweithredu LHDTC+ i Gymru
- Strategaethau Mewnol

# 5. Cyflawni ein hamcanion cydraddoldeb

**Datblygwyd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ategol, sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn manylu ar sut y byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gweithgareddau, polisïau, gweithdrefnau a phrosesau.**

Bydd y cynllun gweithredu yn cael ei adolygu a'i fonitro'n flynyddol gan y Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, gydag adroddiad blynyddol yn adrodd ar gynnydd tuag at gyflawniad yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Pobl a Diwylliant y Brifysgol a phwyllgorau priodol. .

**Mae gan ein Prifysgol amrywiaeth o bolisïau, strategaethau ac arferion sy'n cyd-fynd â sut rydym yn ymdrechu i wireddu cyfle cyfartal:**

- Gweledigaeth a Strategaeth Prifysgol Wrecsam
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol
- Proses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb
- Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant
- Rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Strategaeth ar gyfer Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr
- Cynllun Ffioedd a Mynediad
- Strategaeth Pobl
- Polisïau perthnasol

**Byddwn hefyd yn defnyddio nifer o fframweithiau allanol i gefnogi cyflawniad ein hamcanion:**

- Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall
- Fframwaith Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd
- Siarter Cydraddoldeb Hiliol Advance HE
- Fframwaith Addewid Cyflogwyr i Amser i Newid
- Siarter Rare Aware
- Fframwaith Addewid Cyflogwr i 'Amser i Newid' – Rhuban Gwyn
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol "Cymru" 2015

# 6. Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

**Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn cyd-fynd â chyfeiriad strategol ein Prifysgol a'n strategaethau ategol; wedi'i lywio gan ymgynghoriad fel y nodir yn Adran 4. Mae'r Cynllun yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol. Bydd y dull hwn yn ein galluogi i gyflawni ein hymrwymiadau presennol yn effeithiol wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n esblygu.**

Bydd ein prif amcanion yn canolbwyntio ar ein Pobl, yr Amgylchedd a'r Gymuned er mwyn cyflawni ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol. Rydym wedi nodi tri amcan cyffredinol craidd, gyda phob amcan yn cael ei ategu gan amcanion perthnasol manylach.

**1. Ein Pobl - Meithrin amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol sy'n meithrin diwylliant sy'n cefnogi ein staff a'n myfyrwyr; cofleidio amrywiaeth a hyrwyddo ymdeimlad o berthyn, gan sicrhau cyfleoedd teg i'n pobl.**

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Gwella iechyd meddwl a llesiant ein myfyrwyr a'n staff drwy weithredu mentrau wedi'u targedu, gan weithio ar y cyd â'r Gweithgor Iechyd Meddwl a Llesiant i sicrhau bod camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant yn cael eu cyflawni.

- Sicrhau bod prosesau derbyn, recriwtio a dilyniant yn deg ac yn dryloyw i'r holl staff a myfyrwyr, gan ddileu'r rhwystrau i gefnogi pobl ag anghenion amrywiol.

- Archwilio a mireinio ymyriadau i wella cyfraddau cyflawniad academaidd a'n gallu i sicrhau bod mwy o fyfyrwyr yn aros hefo ni.

- Monitro cyflawniad y camau gweithredu a nodir o fewn cynlluniau a strategaethau gweithredu allweddol y Brifysgol, gan gynnwys cynlluniau canlynol Prifysgol Wrecsam: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+, Cynllun Gweithredu Rhuban Gwyn, Cynllun Gweithredu Hyderus o ran Anabledd, Strategaeth Cefnogi Dysgu a Chyrhaeddiad Myfyrwyr, Cynllun Ffioedd a Mynediad a Strategaeth a Chynllun Gweithredu Academaidd Cyfrwng Cymraeg.

- Hyrwyddo dileu Trais ar Sail Rhyw, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o wrywdod cadarnhaol, perthnasoedd a sgyrsiau iach, adolygu polisïau perthnasol, cynnig cefnogaeth yn uniongyrchol neu drwy gyfeirio; meithrin amgylchedd lle mae myfyrwyr a staff yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu parchu.

- Gwella prosesau i feithrin amgylchedd cynhwysol i staff a myfyrwyr, gan fabwysiadu dull croestoriadol; mynd ati i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, gan feithrin cymuned campws gynhwysol.

- Cynyddu nifer y staff o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol drwy ddefnyddio camau gweithredu cadarnhaol mewn ymarferion recriwtio. Cynnwys adolygiad mewnol o anghydraddoldebau o ran cynrychiolaeth ar fyrddau a phwyllgorau, cyrchu ystod o leisiau sy'n cynrychioli ein cymuned.

- Gweithredu strategaethau sydd â'r nod o leihau a dileu bylchau cyflog yn ein Prifysgol, sicrhau cyflog teg i bob gweithiwr beth bynnag yw eu nodweddion gwarchodedig.

- Archwilio cyfleoedd i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth bersonol, gyda'r nod o hybu cyfraddau cyfranogi a fydd yn cyfrannu at welliannau parhaus; galluogi integreiddio ymatebion mwy caboledig, yn enwedig mewn perthynas â chroestoriadedd.

**2. Ein Hamgylchedd - Hyrwyddo amgylchedd cynhwysol a chyfiawn i'n myfyrwyr, ein staff a'n hymwelwyr drwy sicrhau bod ein mannau ffisegol a digidol yn hygyrch; meithrin cefnogaeth ac ymatebolrwydd .**

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Adolygu prosesau datblygu'r cwricwlwm, meithrin amgylchedd dysgu cynhwysol i fyfyrwyr; mabwysiadu dull croestoriadol.

- Darparu amgylchedd digidol sy'n sicrhau profiad cadarnhaol a hygyrch i ddefnyddwyr.

- Adolygu annhegwch wrth gyrchu a llywio ein hamgylcheddau adeiladu a dysgu; ymdrechu i wella hygyrchedd, arallgyfeirio cynnwys a hyrwyddo cynrychiolaeth gynhwysol.

- Archwilio cyfleoedd i wella adnoddau a deunyddiau dysgu ar gyfer pob myfyriwr, gan ganolbwyntio ar wella hygyrchedd, arallgyfeirio cynnwys a hyrwyddo cynrychiolaeth gynhwysol.

- Archwilio strategaethau i hyrwyddo tegwch a thriniaeth deg i staff a myfyrwyr drwy gydol cyfnod gweithredu, defnyddio a chanlyniadau systemau deallusrwydd artiffisial yng nghyd-destun dysgu, ymchwil a gwaith.

- Gwella a chryfhau dealltwriaeth ddiwylliannol rhwng ein pobl o gefndiroedd amrywiol.

- Mynd i'r afael yn effeithiol â materion, digwyddiadau a chwynion a rhoi sylw iddynt buan iddynt fel y gellir eu datrys yn gynnar.

- Sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010 drwy sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau a phrosesau cydymffurfio ar waith; yn cyd-fynd â'r arfer gorau; bod ystyriaeth i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd ein penderfyniadau.

**3. Ein Cymuned - Cryfhau ein cysylltiadau â'r gymuned leol trwy ffurfio partneriaethau cynhwysol, gweithio ar fentrau a rennir a phrosiectau cydweithredol; gwneud cyfraniad at les ein Prifysgol a'r gymuned leol trwy rannu cyfrifoldeb a chysylltiadau ystyrlon.**

Byddwn yn cyflawni hyn drwy:

- Nodi a sefydlu cyfleoedd cydweithio effeithiol gyda chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol yn yr ardal leol, gan ddod â safbwyntiau a phrofiadau amrywiol a fydd yn cyfoethogi ein hamgylchedd dysgu a gwaith.

- Annog cyfranogiad gweithredol staff a myfyrwyr yn ein cymuned drwy gynyddu ymgysylltiad â gwirfoddoli: gyda hynny'n cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol a amlinellir yn Strategaeth Ymgysylltu Ddinesig Prifysgol Wrecsam.

- Gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a sefydliadau cymunedol yn unol â'n Strategaeth Cyflogadwyedd i feithrin cyfleoedd i wella sgiliau cyflogaeth myfyrwyr.

- Cydweithio â darparwyr gofal iechyd lleol i drefnu fferyllfeydd iechyd ar y campws, gan gynnig archwiliadau iechyd am ddim, cyfeirio a gwybodaeth am ofal iechyd ataliol.

- Archwilio'r posibilrwydd o ffurfio Bwrdd Cynghori Cymunedol, gan gynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau lleol, busnesau a thrigolion i lywio gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned.

# 7. Monitro ac adrodd Cynnydd

**Bydd Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb y Brifysgol yn adolygu'n rheolaidd y datblygiadau a wnaed o ran cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn, ynghyd ag effeithiolrwydd mentrau cysylltiedig: gyda chyfarfodydd wedi'u trefnu'n chwarterol at y diben hwn.**

Gan ddefnyddio data meincnodi perthnasol i fesur effaith, bydd cynnydd hefyd yn cael ei rannu gyda'n Pwyllgor Pobl a Diwylliant bob chwarter; gyda diweddariad blynyddol yn cael ei gyhoeddi.

Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr a Thîm Gweithredol yr Is-Ganghellor, o dan arweiniad y Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn mynd ati i sicrhau bod ystyriaeth i gydraddoldeb yn rhan integredig o brosesau gwneud penderfyniadau, gan feithrin atebolrwydd ledled y Sefydliad.

Mae'r ddyletswydd i feithrin amgylchedd cynhwysol, hyrwyddo cyfle cyfartal a mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan unigolion wrth weithio a dysgu yn y Brifysgol yn dibynnu ar yr holl staff a myfyrwyr.



# 8. Manylion Cyswllt

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym PW – **EDI@wrexham.ac.uk**

Prifysgol Wrecsam – **wrecsam.ac.uk**

I gael mynediad at wybodaeth cydraddoldeb sy'n ymwneud â Phrifysgol Wrecsam **cliciwch yma**.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat gwahanol, cysylltwch â: **EDI@wrexham.ac.uk**

Prifysgol **Wrecsam**
**Wrexham** University